



Archwilio'r Dystiolaeth: Yr
Effaith o Godi Tâl ai peidio ar
gyfer Mynediadau ar
Amgueddfeydd

Adroddiad Cryno i Gymru

Awst 2016



DCResearch
Economics Creative Culture



Carlisle

Suite 7
Carlyle's Court
1 St Mary's Gate
Carlisle CA3 8RY
t: 01228 402320
m: 07501 725 114
e: stephen@dcresearch.co.uk

Leicester

1 Hewett Close
Great Glen
Leicester
LE8 9DW
t: 0116 259 2390
m: 07501 725 115
e: jon@dcresearch.co.uk

www.dcresearch.co.uk

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN.....	2
Cyflwyniad	2
Y Sector Amgueddfeydd yng Nghymru – Cyd-destun a throsolwg	2
2. TROSOLWG O'R DIRWEDD CODI TÂL MYNEDIAD BRESENNOL I AMGUEDDFEYDD	6
3. CYMHARU NODWEDDION, PROFIADAU, AC EFFAITH – CODI TÂL A PHEIDIO Â CHODI TÂL AM FYNEDIADAU	9
Yr Effaith o Newid o Ddi-dâl i Godi Tâl.....	12
Yr Effaith o Newid o Godi Tâl i Ddi-dâl.....	14
4. CODI TÂL AM FYNEDIADAU – DULLIAU GWEITHREDU, PRISIO AC EFFAITH	16
Yr Effaith o Newid /Cynyddu Prisoedd Mynediad	17
5. GWERSI A DDYSGWYD A MATERION I'W HYSTYRIED	19

CASGLIADAU CYFFREDINOL ALLWEDDOL

- Nid oes unrhyw nodweddion penodol sydd yn amlygu amgueddfeydd sydd yn codi tâl mynediad neu sydd yn ddi-dâl, ac mae'r ddarlun yn fwy cymhleth o lawer nag y mae llawer yn ei feddwl, gan fod un o bob tair o amgueddfeydd yn rai â mynediad di-dâl, ac un o bob tair amgueddfa awdurdod lleol yn codi tâl ar gyfer mynediad.
- Nid oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng amrywiaeth y cynulleidfaedd a pha un a yw amgueddfa yn codi tâl ar gyfer mynediad ai peidio, gyda phatrwm tebyg iawn yn nhermau cymysgedd cymdeithasol. Fodd bynnag, rhaid i gasgliad fel hyn gydnabod nad yw'r cymysgedd cymdeithasol cyffredinol o ymwelwyr amgueddfa bob amser yn cynrychioli'r cymysgedd cymdeithasol ehangach o fewn eu cymunedau lleol.
- Mae cyfraniadau yn cael eu heffeithio yn fwy gan amrywiaeth o ffactorau na pha un a yw amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediad ai peidio.
- Nid oes unrhyw berthynas gyson rhwng lefelau o wario eilaidd a pha un a yw amgueddfa yn codi tâl mynediad, gyda ffactorau eraill yn cael llawer mwy o ddylanwad. Fodd bynnag, mae rhai tystiolaeth wedi dod i'r amlwg sydd yn dangos fod ymwelwyr i amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn fyw tebygol o ymweld â'r siop (neu ddefnyddio arlwy ar y safle), nag ymwelwyr i amgueddfeydd â mynediad di-dâl.
- Mae amserau treulio fel arfer yn fwy ar gyfer amgueddfeydd sydd yn codi tâl mynediad.
- Mae'r broses o godi tâl yn creu ffocws i groeso'r ymwelydd ac yn casglu gwybodaeth am ymwelwyr. Pan fod amgueddfeydd yn ddi-dâl, mae angen dulliau gweithredu ar gyfer yr elfennau hyn.
- Wrth wneud newidiadau mae'n arbennig o bwysig i gyfathrebu yn glir gyda rhanddeiliaid a'r gymuned leol am y rhesymau dros y newidiadau ac i sicrhau bod staff yn gadarnhaol ac yn hyderus wrth eu hegluro wrth ymwelwyr.

Cydnabyddiaethau: Hoffai DC Research a chynrychiolwyr y Grŵp Llywio ar gyfer y prosiect hwn (Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol - AIM; Cyngor Celfyddydau Lloegr; ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru) ddiolch i bob amgueddfa ac unigolyn a gyfranwyd at yr ymchwil hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd – gan gynnwys ymateb i'r arolwg, cytuno i gael ymwelwyr fel amgueddfa astudiaeth achos, cael eu ymgynghori gan y tîm astudio, darparu enghreifftiau o ymchwil a thystiolaeth flaenorol o amgylch codi tâl ar gyfer mynediadau, a/neu drwy roi sylwadau ar gasgliadau sydd yn dod i'r amlwg o'r ymchwil ar bwyntiau amrywiol. Rydym yn gwerthfarwogi'r cyfraniadau hyn a'r amser a dreuliwyd yn fawr iawn.

1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

Cyflwyniad

- 1.1 Comisiynwyd DC Research Ltd gan Gymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Lloegr (ACE) ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru, i gwblhau astudiaeth ymchwil i'r effaith o godi tâl ai peidio ar amgueddfeydd.
- 1.2 Nod cyffredinol yr ymchwil oedd deall profiad amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o fynediad di-dâl tuag at godi tâl neu o godi tâl tuag at fynediad di-dâl, neu duag at fodolau 'hybrid', ac i archwilio strategaethau prisiau gwahanol a'u heffaith; gan gynnwys:
 - i. effaith ar niferoedd ymwelwyr
 - ii. effaith ar amrywiaeth ymwelwyr
 - iii. effaith gyffredinol ar incwm gan gynnwys gwario eilaidd a chyfraniadau digymell
 - iv. effaith ar foddhad ymwelwyr / ansawdd yr ymweliad
 - v. effaith ar enw da a pherthnasau gyda rhanddeiliaid, y gymuned, aelodau a.y.b.
 - vi. gwersi a ddysgwyd i rannu gydag amgueddfeydd eraill.
- 1.3 Roedd dull gweithredu'r ymchwil yn cynnwys adolygiad manwl o ymchwil a llenyddiaeth flaenorol am effaith codi tâl ar amgueddfeydd, cwblhau arolwg sector-eang o amgueddfeydd ar hyd a lled y DU (derbyniwyd cyfanswm o 311 ymateb), ymweld â 20 amgueddfa astudiaeth achos i asesu'n fanwl yr effaith o godi tâl ar gyfer mynediadau, a chwblhau amrywiaeth o ymgynghoriadau unigol gyda rhanddeiliaid amgueddfa allweddol.
- 1.4 Gan gyfeirio'n benodol at Gymru, derbyniwyd cyfanswm o 53 ymateb i'r arolwg, sydd yn cyfrifo am ryw draean o amgueddfeydd Cymru¹ a chwblhawyd pump o ymweliadau astudiaeth achos².
- 1.5 Adroddiad Cryno i Gymru yw'r adroddiad hwn, sydd yn adlewyrchu ar gasgliadau'r ymchwil sydd yn benodol i Gymru a chyd-destun polisi Cymru (gan gynnwys Argymhelliaid 8 Adolygiad Arbenigol Darpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015). Mae'r adroddiad felly yn canolbwyntio ar y canlyniadau i Gymru o'r arolwg a'r astudiaethau achos, yn ogystal ag adlewyrchu'r cynnwys penodol i Gymru, gan gynnwys adborth gan ymgynghoriadau a gwblhawyd yng Nghymru.

Y Sector Amgueddfeydd yng Nghymru – Cyd-destun a Throsolwg

Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015

- 1.6 Yn 2015, cwblhawyd ei phedwaredd arolwg o sector amgueddfeydd Cymru gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu trosolwg o gyflwr y sector amgueddfeydd yng

¹ Yn ôl Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 mae tua 160 o amgueddfeydd yng Nghymru, felly mae'r 53 o ymatebion yn cyfrifo am ryw draean o ymatebwyr potensial. Ni chafwyd Amgueddfeydd Cenedlaethol ar hyd a lled y DU, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, eu cynnwys yn yr arolwg ond rhoddwyd cyfweiliad i Amgueddfa Cymru fel ymgynghorydd ar gyfer yr adroddiad hwn.

² Y pump amgueddfa astudiaeth achos yng Nghymru oedd: Castell Cil-y-Coed, Amgueddfa Ceredigion, Amgueddfa ac Oriol Gelf Castell Cyfarthfa, Gaol Rhuthun a Nant Clwyd Y Dre, ac Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod.

Nghymru gan archwilio safonau arfer, casgliadau, patrymau ymwelwyr, cyllido ac incwm. Mae Sbotolau hefyd yn darparu trosolwg o'r amrywiaethau rhwng y gwahanol fathau o amgueddfeydd yng Nghymru, gan gynnwys amgueddfeydd cenedlaethol (Amgueddfa Cymru), amgueddfeydd lleol, amgueddfeydd Awdurdod Lleol ac amgueddfeydd annibynnol, a.y.b.³

1.7 Amlygwyd y casgliadau allweddol canlynol gan Sbotolau 2015 ar sail yr ymchwil:

- Yn nhermau ymweld ag amgueddfeydd, adroddwyd gan Sbotolau fod ychydig dros 3.75 miliwn o ymweliadau i amgueddfeydd yng Nghymru yn 2013, gyda thua'r un nifer o ymweliadau yn 2014. Dros y cyfnod a edrychwyd arno gan Sbotolau (2011-2014) mae ymweliadau wedi gostwng o dua 3.3%, fodd bynnag roedd cynnydd o 1.3% mewn ymweliadau i amgueddfeydd lleol. Cafwyd 21% o'r ymweliadau i amgueddfeydd eu gwneud gan blant dan 16 oed.
- Yn nhermau gweithgareddau dysgu ar gyfer 2013/14, cynhaliwyd 9,178 o sesiynau a gweithgareddau ar y safle, gyda 500,586 o gyfranogwyr, a 2,419 arall i ffwrdd o'r safle, gyda 124,992 o gyfranogwyr.
- Yn ôl Sbotolau roedd effaith economaidd y cyfanswm o ymweliadau i amgueddfeydd yng Nghymru yn agos at £83 miliwn.
- Roedd Sbotolau hefyd yn gwneud ymchwil i gasgliadau yng Nghymru. Yn ôl ymchwil blaenorol (ffigurau 2011) roedd 5.5miliwn o eitemau yn cael eu dal yn amgueddfeydd Cymru. Mae lefelau o ofal a rheoli casgliadau⁴ yn dal i fod yn uchel, er bod yr adroddiad yn denu sylw at faterion o amgylch storio presennol a rhai potensial yn y dyfodol.
- Mae gweithlu amgueddfeydd yng Nghymru yn cynnwys tua 3,500 o unigolion, ac mae tua dau draean ohonynt yn wirfoddolwyr, cynnydd bach ar 2011, sydd yn gadael 1,196 o staff cyflogedig o fewn y sector. Sylwodd Sbotolau hefyd fod 10 o Amgueddfeydd Achrededig yn cael eu cynnal yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr.
- Roedd casgliadau eraill am ddarpariaeth amgueddfeydd yn amlygu bod: cyllidebau yn gostwng (1% o ostyngiad rhwng 2011/12 a 2013/14), a bod cymhorthdal cyhoeddus ar y cyfan, naill ai yn ddisymud neu hefyd yn gostwng. Roedd tua hanner o amgueddfeydd Cymru yn darparu mynediad di-dâl.

Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015

1.8 Ym mis Hydref 2014, comisiynwyd Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru⁵ yn erbyn cefndir o ostyngiadau mewn cyllid, ac ad-drefnu a diwygio arfaethedig llywodraeth leol. Nod yr Adolygiad Arbenigol oedd adolygu newidiadau i ddarpariaeth amgueddfeydd lleol ar ran awdurdodau lleol, a chynllunio modelau darparu gwasanaethau sydd yn gynaliadwy ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd.

1.9 Amlygwyd rhai o'r casgliadau allweddol canlynol gan yr Adolygiad Arbenigol:

- Cyfanswm ymweliadau i amgueddfeydd o 4.27⁶ miliwn o ymweliadau ar gyfer 2013 (yn cynrychioli cynnydd o ryw 7% ers 2009).

³ Newman, T & SWMDP (2015), 'Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015', *Llywodraeth Cymru*

⁴ Monitro amgylcheddol, rheoli amgylcheddol, storio a chadw tŷ, arddangos a chadw tŷ, a dogfennau.

⁵ Edwards H., (Chair), et al. (2014), 'Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015', *Llywodraeth Cymru*

⁶ Nid oedd ffigurau 2013 ar gael gan Sbotolau adeg yr Adolygiad. Mae'r ffigur hwn felly yn seiliedig ar setiau gwahanol o ddata a eglurir yn adroddiad yr Adolygiad, paragraff 53.

- Yn gyffredinol mae amgueddfeydd lleol yng Nghymru yn denu niferoedd isel o ymwelwyr ar sail unigol, gyda'r mwyafrif o amgueddfeydd awdurdod lleol yn denu llai na 10,400 o ymwelwyr y flwyddyn.
- Yn nhermau demograffeg ymwelwyr, mae'r Adolygiad yn dangos fod mwyafrif yr ymweliadau i amgueddfeydd yng Nghymru yn cael eu gwneud gan drigolion o Gymru, a bod y mwyafrif ohonynt yn fenywaidd, o oedran hŷn, ac yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1.
- Mae'r Adolygiad Arbenigol hefyd yn egluro'r ddarlun codi tâl yng Nghymru, gan dorri i lawr y sector yn dri grŵp ar wahân: Amgueddfa Cymru, ble mae mynediad wedi bod yn ddi-dâl erbyn 2001; amgueddfeydd annibynnol, ac ymysg y rhain mae cyfran uchel yn codi tâl ar gyfer mynediad; ac amgueddfeydd awdurdod lleol, gyda ryw draean o'r rhain yn codi tâl ar gyfer mynediad.

1.10 Mae'r Adolygiad Arbenigol yn disgrifio'r deinameg codi tâl yng Nghymru fel "dryslyd i'r cyhoedd," ac yn argymhell (gweler pwynt 8 yn y rhestr ganlynol) adolygiad o arferion presennol ar hyd y sector.

1.11 Ar gefn casgliadau'r Adolygiad, gwnaed nifer o argymhellion, sef:

1. I greu tri Chorff Rhanbarthol i ddarparu cyfeiriad, rheolaeth a chymorth gweithredol i amgueddfeydd yn lleol.
2. I sefydlu Cyngor Amgueddfeydd cenedlaethol i ddarparu arweinyddiaeth ar y cyd a chydgyssylltu gweithgareddau ar lefel genedlaethol.
3. I ddatblygu Siatr Amgueddfeydd i osod disgwyliadau i amgueddfeydd cyhoeddus yng Nghymru.
4. I Awdurdodau Lleol ystyried pob opsiwn, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru, wrth adolygu gwasanaethau amgueddfeydd.
5. I geisio sefydlu Casgliadau Cymru, er mwyn ad-drefnu, datblygu a diogelu casgliadau o arwyddocâd.
6. I gyrrff amrywiol gydweithredu i nodi a darparu datblygiad sgiliau ar gyfer gweithlu'r sector.
7. I sefydlu cronfa drawsnewid, er mwyn hwyluso newidiadau sylweddol sydd eu hangen.
8. I adolygu'r polisi a'r arfer o godi tâl ar gyfer mynediad amgueddfa, a darparu canllawiau.
9. I ddarparu rhyddhad NNDR (Ardreth Annomestig Genedlaethol) ar gyfer amgueddfeydd awdurdod lleol.
10. I Weinidogion Cymru fod yn ffurfiol gyfrifol am gynorthwyo a datblygu pob amgueddfa gyhoeddus yng Nghymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.12 Ystyriaeth o amgylch codi tâl ar gyfer mynediadau gan amgueddfeydd a amlygwyd gan randdeiliaid yng Nghymru ac amgueddfeydd yng Nghymru drwy'r arolwg a'r astudiaethau achos oedd dylanwad ac ystyriaeth polisi llywodraethol o amgylch tlodi, cynhwysiant a lles cymdeithasol – a chyfrifoldebau cyrff cyhoeddus (yn cynnwys amgueddfeydd) yn hyn o beth.

1.13 Caiff hyn ei enghreifftio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn amlinellu nifer o gyfrifoldebau ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru, o ran lles pobl.

- 1.14 Ceisiodd y Ddeddf wneud nifer o bethau, gan gynnwys⁷:
- Diffinio a sefydlu gofynion ar gyfer cyrff cyhoeddus, o amgylch "datblygiad cynaliadwy".
 - Egluro nodau lles, a sefydlu gofynion cyrff o amgylch gosod amcanion lles, a sut y mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni'r nodau hyn, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.
 - Gosod allan gofynion o amgylch dangosyddion ar gyfer mesur perfformiad, gan adrodd ar dueddiadau'r dyfodol, ac adrodd datblygiad blynyddol.
 - Gofyn wrth yr Archwilydd Cyffredinol am archwilio'r uchod.
- 1.15 Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i Gymru, yn ogystal â byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- 1.16 Dan y Ddeddf, mae angen i Gyrff Cyhoeddus, sydd yn cynnwys sefydliadau fel awdurdodau lleol, ac Amgueddfa Cymru, i "feddwl mwy am yr hir dymor, gweithio yn well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych i atal problemau a defnyddio dulliau gweithredu mwy cysylltiedig."⁸
- 1.17 Y cyfrifoldeb hwn sydd wedi arwain at ryw faint o adlewyrchu ar ystyriaethau i amgueddfeydd am godi tâl ar gyfer mynediadau – gyda rhai amgueddfeydd unigol yn adlewyrchu bod y safle polisi yn debygol o leihau'r posibilrwydd o gyflwyno costau mynediad ar gyfer rhai amgueddfeydd.
- 1.18 Y gobaith yw y bydd y casgliadau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn helpu i gyrff cyhoeddus (h.y. awdurdodau lleol) sydd yn gyfrifol am amgueddfeydd i ddeall yr effaith o godi tâl neu beidio â chodi tâl am fynediadau i amgueddfeydd, a defnyddio tystiolaeth fel hyn i hysbysu ystyriaethau am godi tâl am fynediadau yn y dyfodol.

⁷ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015 (anaw 2)
http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/pdfs/anaw_20150002_en.pdf

⁸ Llywodraeth Cynulliad Cymru (2015), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015: Y Prif Hanfodion
<http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf>

2. TROSOLWG O'R DIRWEDD CODI TÂL MYNEDIAD BRESENNOL AR GYFER AMGUEDDFEYDD

- 2.1 Mae patrwm a phroffil ymatebwyr yr arolwg ar gyfer yr ymchwil cyffredinol yn dangos fod yr arolwg yn cynrychioli sector amgueddfeydd ehangach y DU yn gyffredinol yn nhermau math o amgueddfa, daearyddiaeth a maint amgueddfa.
- 2.2 Mae patrwm ymatebwyr yr arolwg yn adlewyrchu'r ffaith fod yr ymchwil wedi'i gomisiynu gan AIM – gyda'r canlyniad bod cyfran ychydig yn uwch o ymatebion gan amgueddfeydd annibynnol; a MALD, gyda'r canlyniad bod ymdrechion ychwanegol penodol yn cael eu gwneud gan y tîm ymchwil i gyflawni lefel ymateb dda gan amgueddfeydd Cymru.
- 2.3 Derbyniwyd cyfanswm o 53 ymateb i'r arolwg gan amgueddfeydd yng Nghymru, ac (yn seiliedig ar amcangyfrif gan Sbotolau ar Amgueddfeydd 2015 o dua 160 amgueddfa yng Nghymru), mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o ryw draean (33%) yng Nghymru – yn uwch na'r gyfradd ymateb cyffredinol ar hyd a lled y DU.
- 2.4 Mae'n bwysig pwysleisio nad yw casgliadau cyffredinol yr arolwg ar lefel DU yn newid yn sylweddol pan gaiff ymatebion Cymru eu gadael allan/cynnwys – i lawer o agweddau, mae ffactorau ar wahân i leoliad daearyddol yn bwysig wrth asesu effaith codi tâl am fynediadau, ac nid yw'r lefel ychwanegol o ymatebion o Gymru wedi arwain at unrhyw duedd ar lefel y DU yng nghanlyniadau'r arolwg.
- 2.5 I Gymru, mae hyn yn awgrymu bod casgliadau am broblemau ac effeithiau o amgylch codi tâl ai peidio ar gyfer mynediadau ar amgueddfeydd yn gyffredinol debyg i Gymru ag ydynt i amgueddfeydd ar hyd y DU. Caiff hyn ei archwilio yn fwy manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- 2.6 Mae'r patrwm o amgueddfeydd yng Nghymru, yn ôl math, a oedd yn ymateb i'r arolwg yn cael ei grynhoi yn Nhabl 2.1 isod, ac yn dangos mai amgueddfeydd annibynnol yw mwyafrif yr ymatebwyr, gyda rhyw 30% o ymatebwyr yn amgueddfeydd awdurdod lleol. Mae'r patrwm hwn yn wahanol i ddata Sbotolau 2015 a oedd yn dangos fod 40% o ymatebwyr yn amgueddfeydd awdurdod lleol a 34% yn annibynnol. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gwahanu'r dadansoddiad yn ôl y fath o amgueddfa lle bo'n berthnasol er mwyn helpu i reoli hyn.

Tabl 2.1: Math o Amgueddfa

	Canran	Nifer
Annibynnol	58.5%	31
Awdurdod Lleol	28.3%	15
Prifysgol	3.8%	2
Arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)	9.4%	5
Ffynhonnell: DC Research, Arolwg o Amgueddfeydd ar Asesu'r Effaith o Godi Tâl ar gyfer Mynediadau, n = 53		

- 2.7 Yn nhermau'r safle presennol ar godi tâl i amgueddfeydd yng Nghymru, mae 40% o amgueddfeydd yn codi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol yn unig; mae 2% yn codi tâl ar gyfer arddangosfeydd penodol yn unig; 15% yn codi tâl i'r ddau; ac nid yw 43% yn codi tâl ar gyfer mynediadau o gwbl. I grynhoi, mae hyn

yn dangos fod 57% o amgueddfeydd yn codi tâl mewn rhyw ffordd ar gyfer mynediadau i'w hamgueddfa, ac nad yw 43% yn codi tâl o gwbl ar gyfer mynediadau. Mae'r patrwm cyffredinol hwn i Gymru yr un peth ag ydyw i amgueddfeydd ar hyd y DU.

- 2.8 Mae asesu'r safle codi tâl yn ôl y fath o amgueddfa (Tabl 2.2) yn dangos fod amgueddfeydd annibynnol yn codi tâl yn fwy cyffredin nag amgueddfeydd awdurdod lleol. Mae'r casgliadau hyn yn cynorthwyo casgliadau'r Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015 a amlinellir yn Adran 1 am raddfa codi tâl yn ôl y fath o amgueddfa.

Tabl 2.2: Math o Amgueddfa/Polisi Codi Tâl a Mynediad

	Codi Tâl	Ddim yn Codi Tâl	Cyfanswm
Annibynnol	21	10	31
	68%	32%	
Awdurdod Lleol	5	10	15
	33%	67%	
Prifysgol	0	2	2
	0%	100%	
Arall	4	1	5
	80%	20%	
Cyfanswm	30	23	53
	57%	43%	

Ffynhonnell: DC Research, Arolwg o Amgueddfeydd ar Asesu'r Effaith o Godi Tâl ar gyfer Mynediadau, n = 53

- 2.9 Mae mwy na dau draean o amgueddfeydd annibynnol yng Nghymru yn codi tâl ar gyfer mynediadau, tra bod traean o amgueddfeydd awdurdod lleol yng Nghymru yn codi tâl ar gyfer mynediadau. Mae'r casgliad hwn yn adlewyrchu'n gryf y casgliadau o ar hyd y DU ble mae 63% o rai annibynnol, ac ychydig yn llai na 37% o rai awdurdod lleol yn dangos eu bod yn codi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol a/neu arddangosfeydd penodol.
- 2.10 Yn nhermau newid cyd-destun o amgylch codi tâl, dywedodd 29% o amgueddfeydd yng Nghymru a oedd yn ymateb i'r arolwg eu bod wedi newid eu polisi codi tâl / prisio dros y tair blynedd diwethaf, ac roedd y mwyfrif llethol o'r amgueddfeydd hyn yn rai annibynnol. Mae'r rheiny sydd yn codi tâl yn barod mewn rhyw ffordd ar gyfer mynediadau yn fwy tebygol o lawer i newid eu safle codi tâl (43%) na'r rheiny nad ydynt yn codi tâl (9%).
- 2.11 Y math o newid mwyaf cyffredin oedd cynnydd codi tâl, h.y. cynnydd pris a/neu gynnydd sgôp/amrywiaeth y bobl sydd yn gorfod talu, gyda nifer fach o ymatebwyr yn adrodd eu bod wedi symud i ffwrdd o fynediadau di-dâl tuag at godi tâl am fynediadau, a'r un nifer yn adrodd newid o godi tâl tuag at fynediadau di-dâl.
- 2.12 I amgueddfeydd sydd ar hyn o bryd yn ddi-dâl ar gyfer mynediad, tra bod rhai wedi ystyried cyflwyno codi tâl, mae mwy na 70% yn adrodd nad ydynt wedi

meddwl am gyflwyno codi tâl ar gyfer mynediadau. Nid yw'n syndod, pan ofynwyd wrthynt pa mor debygol ydynt o ddechrau codi tâl, bod y mwyfrif llethol yn adrodd nad yw hyn yn debygol iawn, neu ddim yn debygol o gwbl, gyda'r un patrwm yn dod i'r amlwg wrth ystyried y 12 mis nesaf neu'r tair blynedd diwethaf.

- 2.13 I amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar hyn o bryd, nid yw'n syndod bod ystyriaethau o amgylch newid eu costau yn fwy cyffredin yn y grŵp hwn, gyda rhaniad gweddol gyfartal rhwng y rheiny sydd wedi ystyried newid mynediadau/prisio a'r rheiny nad ydynt. Mae'r tebygolrwydd o newid codi-tâl hefyd yn fwy cyffredin gyda ryw chwarter yn dweud eu bod yn disgwyl newid eu taliadau yn y 12 mis nesaf, a'r un gyfran yn disgwyl gwneud hynny yn y tair blynedd nesaf.

3. CYMHARU NODWEDDION, PROFIADAU, AC EFFAITH – CODI TÂL A PHEIDIO Â CHODI TÂL AM FYNEDIADAU

Nodweddion o Amgueddfeydd sydd yn Codi Tâl/nad ydynt yn Codi Tâl

- 3.1 Fel yr amlinellir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r patrwm cyffredinol i Gymru yn dangos bod 57% o amgueddfeydd yn codi tâl ar ryw ffurf ar gyfer mynediadau, a 43% ddim yn codi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol nag arddangosfeydd penodol – patrwm sydd i'w weld ar hyd y DU.
- 3.2 Yn ôl yr arolwg, fesul math o amgueddfa, mae mwy na dau draean o amgueddfeydd annibynnol yng Nghymru yn codi tâl ar gyfer mynediadau, tra bod traean o amgueddfeydd awdurdod lleol yng Nghymru yn codi tâl ar gyfer mynediadau. Mae'r casgliadau hyn yn enghreifftio'r ddarlun gymysg o amgylch codi tâl ar gyfer mynediadau, a herio'r canfyddiad bod amgueddfeydd annibynnol yn codi tâl a bod rhai awdurdod lleol yn ddi-dâl.
- 3.3 Ar wahân i amgueddfeydd prifysgol, sydd bron i gyd yn ddi-dâl ar gyfer mynediad⁹, ni ddarganfyddwyd unrhyw nodwedd i benderfynu pa un a fydd amgueddfa yn codi tâl ai peidio, er bod rhai nodweddion cysylltiedig â thwristiaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o godi tâl, fel lleoliad mewn ardal gydag economi ymwelwyr arwyddocaol, bod yn atyniad allweddol yn yr ardal, neu fod mewn ardal ble mae cystadleuaeth uchel i ddenu ymwelwyr.
- Mewn ardaloedd ble mae amgueddfeydd yn disgrifio'r economi ymwelwyr fel 'allweddol', me mwy o amgueddfeydd yn debygol o godi tâl mynediad (65%) nag amgueddfeydd mewn ardaloedd ble y disgrifir yr economi ymwelwyr fel 'arwyddocaol' (50%) neu 'gymhedrol' (60%).
 - Mae patrwm nodedig o amgylch y pwysigrwydd o amgueddfeydd fel atyniad yn yr ardal a'r tebygolrwydd o godi tâl- mae'r amgueddfeydd hynny sydd yn atyniad allweddol (75%) o'u cymharu â un o nifer o atyniadau arwyddocaol (58%); atyniad gweddol arwyddocaol (62%); neu atyniad o ychydig o arwyddocâd (25%).
 - Mae asesu'r lefel o gystadleuaeth ar gyfer denu ymwelwyr mewn perthynas â chodi tâl yn dangos fod yr amgueddfeydd hynny mewn ardaloedd cystadleuol 'iawn' neu rai 'gweddol' gystadleuol yn fwy tebygol o godi tâl (64% a 60% yn yn ôl eu trefn) na'r rheiny mewn ardaloedd sydd 'ychydig' yn gystadleuol (50%).

Profiadau o Godi Tâl/Peidio â Chodi Tâl

- 3.4 Fel y nodwyd yn Adran 2, nid yw'r mwyafrif o amgueddfeydd wedi newid eu safle ar godi tâl mewn blynyddoedd diweddar, ond roeddent yn gallu cyfleu eu safbwyntiau ar beth y maent yn credu fydd yr effaith o fod yn amgueddfa mynediad di-dâl neu o fod yn amgueddfa sydd yn codi tâl ar nodau allweddol yr ymchwil.
- 3.5 Mae'r amgueddfeydd hynny nad ydynt yn codi tâl yn adrodd yn gadarnhaol ar yr effaith o fynediad di-dâl ar niferoedd ymwelwyr – mae 78% yn dweud bod hyn yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn. Mae rhai yn seilio'r casgliad hwn ar brofiad hanesyddol o godi tâl a'r effaith a gafwyd ar y pryd, gydag eraill yn adrodd casgliadau a thystiolaeth anecdotaidd – yn enwedig o amgylch mynediad di-dâl yn helpu i annog ail ymweliadau gan bobl leol.

⁹ Roedd pob amgueddfa brifysgol yng Nghymru a ymatebwyd i'r arolwg yn dweud eu bod yn rai mynediad di-dâl – dywedodd lleiafrif bach iawn yng ngweddill y DU eu bod yn codi tâl ar gyfer mynediad.

- 3.6 I'r gwrthwyneb i hyn, mae'r rheiny sydd yn codi tâl ar hyn o bryd ar gyfer mynediadau yn cyflwyno darlun fwy cymysg – gyda rhyw draean yn dweud nad yw'n cael unrhyw effaith ar nifer ymwelwyr (31%), yr un gyfran yn adrodd effaith negyddol (31%), a bron i bumed yn adrodd effeithiau cadarnhaol (19%).
- 3.7 Yn nhermau cymysgedd ac amrywiaeth ymwelwyr, tra bod 55% o amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl mynediad yn teimlo bod hyn yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar y cymysgedd o ymwelwyr, mae 50% o'r rheiny sydd yn codi tâl yn adrodd nad yw codi tâl yn cael unrhyw effaith ar gymysgedd ac amrywiaeth yr ymwelwyr.
- 3.8 Mae'r amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl yn pwysleisio'r rôl o gynigion arbennig ar gyfer grwpiau penodol i leihau unrhyw effeithiau negyddol potensial, gyda'r pryder mwyaf yn perthyn i'r effaith o godi tâl ar ymwelwyr gan bobl leol. Mae'r pryder am yr effaith o godi tâl ar bobl leol yn cael ei gefnogi gan ddata Visitor Verdict AIM¹⁰ sydd yn dangos ymwelwyr lleol (h.y. o'r un wlad) fel cyfran uwch o'r ymwelwyr i safleoedd mynediad di-dâl (44%), nag i rai sydd yn codi tâl (26%).
- 3.9 Mae casgliadau'r ymchwil DU-eang yn awgrymu nad yw codi tâl yn effeithio ar gymysgedd cymdeithasol yr ymwelwyr i amgueddfeydd. Mae Visitor Verdict AIM yn dangos ychydig iawn o wahaniaeth rhwng y cyfrannau o raddau cymdeithasol gwahanol o ymwelwyr i safleoedd mynediad di-dâl ac i safleoedd sydd yn codi tâl.
- 3.10 Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw'r cymysgedd o ymwelwyr i amgueddfeydd, pa un a ydynt yn codi tâl neu yn ddi-dâl, yn cynrychioli'r gymdeithas ehangach – gyda graddau cymdeithasol uwch (e.e. AB) yn cael eu gorgynrychioli a graddau cymdeithasol is (e.e. C2 a DE) yn cael eu tangynrychioli. Mae tystiolaeth debyg am orgynrychioli o grwpiau cymdeithasol-economaidd uwch a thangynrychioli o grwpiau economaidd is ar gael mewn data arall ar ymwelwyr amgueddfeydd (e.e. Arolwg Cenedlaethol Cymru¹¹).
- 3.11 Roedd casgliadau mewn perthynas â rhai dangosyddion cymdeithasol-economaidd o fewn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cydfynd â chasgliadau a amlygwyd yn Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd yng Nghymru 2015 yn Adran 1 yr adroddiad hwn, yn ogystal â gyda data DU-eang gan Visitor Verdict AIM a ffynonellau eraill (e.e. Arolwg Cymryd Rhan Lloegr).
- 3.12 Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru fod presenoldeb mewn amgueddfeydd ymysg y rheiny a arolygwyd â lefel cymhwyster o 4 neu uwch yn 52%, o gymharu â 22% ar gyfer y rheiny heb unrhyw gymhwyster a 32% ymysg y rheiny â chymhwyster lefel 1 tebyg .
- 3.13 Ar ben hynny, wrth edrych ar bresenoldeb mewn amgueddfeydd mewn perthynas â Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru (WIMD), ar gyfer y rheiny sydd yn byw mewn ardaloedd o fewn y cwintel o'r amddifadedd lleiaf roedd 43% wedi ymweld ag amgueddfa neu ddigwyddiad amgueddfa, tra bod 34% o'r rheiny sydd yn byw yn y cwintel o'r amddifadedd mwyaf wedi ymweld ag amgueddfa neu ddigwyddiad amgueddfa. Dylid nodi bod y rhain yn syrthio o fewn y categori o gyfradd ymweld cyffredinol yng Nghymru o 39% o'r rheiny a arolygwyd, sydd yn

¹⁰ Arolwg ymwelwyr a gwasanaeth meincnodi yw AIM Visitor Verdict ar gyfer atyniadau ymwelwyr bach a chymhedrol. Fe'i datblygwyd yn 2013 gan BDRC Continental gyda Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol a chymorth ariannol gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, mae'r gwasanaeth ar agor i bob atyniad ymwelwyr gyda'r nod o ddarparu dull rhad o gynhyrchu adborth cynhwysfawr a chadarn gan eu hymwelwyr. Am ragor o wybodaeth gweler: <https://www.visitorverdict.com/>

¹¹ Ystadegau i Gymru (2016), Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014-15: Celfyddydau, amgueddfeydd a llefydd hanesyddol, Llywodraeth Cymru, <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/2014-15>

dangos eu bod wedi ymweld ag amgueddfa neu ddigwyddiad amgueddfa yn y 12 mis blaenorol.

- 3.14 Un o gasgliadau arwyddocaol Arolwg Cenedlaethol Cymru yw mewn perthynas â rhwystrau i fynediad i amgueddfeydd ar gyfer preswylwyr Cymru. Gofynwyd wrth ymatebwyr yr arolwg am y rhesymau pam nad oeddent yn ymweld ag amgueddfa, gan ddarganfod mai cost yr ymweliad oedd un o'r rhesymau lleiaf cyffredin, gyda dim ond 3% yn dweud mai dyma oedd eu rheswm am beidio ag ymweld. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd diffyg diddordeb (31%) ac anhawster dod o hyd i ddigon o amser i ymweld (30%). Roedd 19% arall yn dweud nad oeddent byth wedi meddwl am ymweld ag amgueddfa mewn unrhyw achos. Tra bod y casgliadau hyn yn agrymu nad yw cost, gan gynnwys, ond ddim yn cyfeirio yn unig at gost mynediad, yn rheswm cyffredin dros beidio ag ymweld, beth sydd yn aneglir yw i ba raddau y gall cost fod yn rhwystr pe bai'r rhesymau eraill (diffyg diddordeb a diffyg amser) yn cael eu datrys.
- 3.15 Mae amgueddfeydd, wrth gwrs, sydd yn eithriadau i'r patrwm hwn o amgylch cymysgedd cymdeithasol ymwelwyr – sydd yn cyflawni cymysgedd cymdeithasol ac amrywiaeth o ymwelwyr sydd yn adlewyrchu eu cymuned, ond ni chaiff y rhain eu gwahaniaethu gan ba un a ydynt yn codi tâl ai peidio, a rhaid cydnabod y patrwm eang hwn.
- 3.16 Nid yw'n syndod bod y mwyafrif o amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad yn adrodd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar incwm. O ran incwm o ffynonellau eraill – o ystyried gwario eilaidd ar y safle a chyfraniadau digymell – yn gyffredinol, nid codi tâl yw'r ffactor ddylanwadol mwyaf ar y ffynonellau hyn.
- 3.17 Mae'r mwyafrif o amgueddfeydd yng Nghymru nad ydynt yn codi tâl mynediad yn adrodd bod hyn yn cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar gyfraniadau digymell, er bod llawer o amgueddfeydd, rhai sydd yn codi tâl neu yn ddi-dâl, yn adrodd bod ffactorau eraill yn hytrach na'u safbwynt ar godi tâl yn cael dylanwad fwy ar lefel y cyfraniadau a dderbyniwyd – y mwyaf nodedig yw strategaeth a dull gweithredu cyffredinol yr amgueddfa o ran chwilio'n rhagweithiol am gyfraniadau ai peidio.
- 3.18 Roedd rhai tueddiadau ehangach on nid yn Cymru-benodol, yn dod i'r amlwg o amgylch codi tâl a gwario eilaidd. Er enghraifft, mae Visitor Verdict AIM yn dangos fod ymwelwyr i safleoedd sydd yn codi tâl yn fwy tebygol o wedi ymweld â'r siop a phrynu, neu o ddefnyddio'r arlwygo ar y safle, na'r rheiny i safleoedd di-dâl. Mae'n ddiddorol, fodd bynnag, fod yr arolwg yn dangos fod rhyw 40% o amgueddfeydd mynediad di-dâl yn credu bod peidio â chodi tâl yn cael effaith gadarnhaol ar wario eilaidd, gyda chyfran debyg o amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn credu hyn. Un o'r effeithiau cadarnhaol mwy cyffredin a adroddwyd gan amgueddfeydd di-dâl yw cynnydd cyffredinol mewn ymwelwyr sydd yn arwain at gynydd gwerthiannau.
- 3.19 Unwaith eto, mae llawer o amgueddfeydd, y rheiny sydd yn ddi-dâl ar gyfer mynediad a'r rheiny sydd yn codi tâl, yn adrodd bod ffactorau ar wahân i'w safbwynt ar godi tâl yn dylanwadu ar y lefel o wario eilaidd, yn enwedig o nodedig, ansawdd y cynnig, gan gynnwys adwerthu ac arlwygo ar y safle.
- 3.20 Mae'r ymchwil DU-eang yn gyffredinol yn dangos fod gan amgueddfeydd sydd yn codi tâl mynediad amserau treulio hirach na'r rheiny sydd yn ddi-dâl, ac ail-adroddir y patrwm hwn yng Nghymru – gyda mwy na 40% o amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn adrodd amserau treulio hirach, o'u cymharu â chwarter o amgueddfeydd di-dâl. Roedd tystiolaeth hefyd o hyn yn y data gan Visitor Verdict AIM. Dangosodd Visitor Verdict AIM fod gan amgueddfeydd mynediad di-dâl

raddau uwch o ail ymweliadau (39%) o'u cymharu â'r rheiny sydd yn codi tâl mynediad (31%).

- 3.21 Ar lefel DU, mae Visitor Verdict AIM hefyd yn dangos ar gyfer mwynhad cyffredinol o ymweliadau (a raddiwyd o 1 i 10 gan yr ymwelydd), fod ychydig iawn o wahaniaeth rhwng ansawdd yr ymweliad at safleoedd sydd yn codi tâl mynediad (sgôr ar gyfartaledd o 8.7) a safleoedd di-dâl (sgôr ar gyfartaledd o 8.9), sydd yn awgrymu nad yw codi tâl ai peidio yn ddylanwad fawr ar ansawdd cyffredinol yr ymweliad.
- 3.22 Roedd amgueddfeydd hefyd yn adrodd sut y mae eu safle presennol ar godi tâl yn effeithio ar berthnasau ac enw da gyda rhanddeiliaid a chyllidwyr; y gymuned leol a ffrindiau ac aelodau. Mae'r mwyafrif llethol o amgueddfeydd nad ydynt yn codi tâl yn gweld mynediad di-dâl yn cael effaith gadarnhaol gyda'r grwpiau hyn, yn enwedig gyda'u cymuned leol – mae mwy na 70% o amgueddfeydd yng Nghymru nad ydynt yn codi tâl yn adrodd hyn. Mewn gwrthgyferbyniad, mae llai o lawer o amgueddfeydd sydd yn codi tâl, yn dweud bod codi tâl yn effeithio ar y perthnasau hyn. Gan amlaf, mae amgueddfeydd yn adrodd fod dealltwriaeth ar hyd a lled y grwpiau hyn am y rhesymeg neu'r angen i godi tâl mynediad, ac felly nid yw'n effeithio ar berthnasau. Yr eithriad i hyn yw eu perthnasau â'r gymuned leol gyda rhai amgueddfeydd yn adrodd y gall hyn gael ei heffeithio'n negyddol gan godi tâl.

Yr Effaith o Newid o Ddi-dâl i Godi Tâl

- 3.23 Fel y nodwyd yn gynt, nifer weddol fach o amgueddfeydd sydd wedi newid eu safle, naill ai o ddi-dâl i godi tâl, neu o godi tâl i ddi-dâl – mae hyn yn wir yng Nghymru ac yn ehangach ar hyd y DU. Fodd bynnag, mae cyfuno'r ymatebion arolwg perthnasol gyda'r casgliadau mwy manwl o'r ymweliadau astudiaethau achos ar gyfer pob grŵp wedi darparu sylfaen dda i gasglu'r canlynol.
- 3.24 Yn nhermau symud o ddi-dâl i godi tâl, mae'r casgliadau isod yn dod o'r dystiolaeth DU-eang, wedi'i chynorthwyo gan ymatebion arolwg penodol gan amgueddfeydd yng Nghymru ac astudiaethau achos o amgueddfeydd yng Nghymru.

YR EFFAITH O SYMUD I FFWRDD O DDI-DÂL TUAG AT GODI TÂL

- Mae amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn adrodd fwyaf cyffredin bod hyn yn cael effaith negyddol ar niferoedd ymwelwyr yn gyffredinol, gyda rhai yn adrodd gostyngiadau nodedig o ymwelwyr, yn enwedig yn y nifer o ymwelwyr lleol.
- Mae amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn adrodd fel arfer nad yw hyn yn cael unhryw effaith ar gymysgedd ac amrywiaeth ymwelwyr, er y gall data ar gymysgedd cymdeithasol fod yn gyfyngedig i rai amgueddfeydd, yn enwedig pan eu bod yn ddi-dâl.
- Mae'r amgueddfeydd i gyd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn adrodd effaith gadarnhaol ar incwm mynediadau, ac i rai mae hyn wedi bod yn lefel nodedig/sylweddol o incwm sydd wedi cryfhau safle ariannol cyffredinol yr amgueddfa.
- Roedd cyfraniadau digymell yn gostwng yn gyffredin wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl, ond mae gostyngiadau fel hyn yn cael eu digolledu yn rhwydd gan y cynnydd mewn incwm mynediadau. Mae llawer o amgueddfeydd yn adrodd fod ffactorau eraill ar wahân i godi tâl yn cael mwy o ddylanwad ar gyfraniadau.

- Tra bod darlun gymysg yn dod i'r amlwg am effaith codi tâl ar wario eilaidd, mae tystiolaeth fod ymwelwyr i safleoedd sydd yn codi tâl mynediad yn fwy tebygol o ymweld â'r siop a phrynu neu ddefnyddio'r arlwygo ar y safle, na'r rheiny i safleoedd mynediad di-dâl. Fodd bynnag, nodwyd gan lawer ddylanwad gryfach ffactorau ar wahân i godi tâl ar wario eilaidd – yn enwedig ansawdd yr adwerthu a'r cynnig arlwygo ar y safle.
 - Nodwyd gan rai amgueddfeydd nad oedd gwario eilaidd yn gyffredinol wedi newid wrth i niferoedd ymwelwyr leihau – gan awgrymu o bosib fod yr ymwelwyr a gollwyd wrth symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn bobl na fyddent fel arfer yn gwneud unrhyw wario eilaidd wrth ymweld.
 - Mae amgueddfeydd sydd yn symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol yn adrodd fod hyn wedi cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar berthnasau ac enw da. Er bod gwerthfawrogiad fel arfer gan randdeiliaid o'r angen i gynyddu incwm, gall amgueddfeydd brofi ymateb negyddol gan y gymuned leol, gyda chyfathrebu a chynllunio yn elfennau allweddol mewn lleddfu ymatebion fel hyn.
- 3.25 Mae'r astudiaeth achos o Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa, sydd wedi symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl mewn blynyddoedd diweddar, yn enghreifftio rhai o'r effaithiau hyn isod.

ENGHRAIFFT ASTUDIAETH ACHOS: YR EFFAITH O SYMUD I FFWRDD O DDI-DÂL TUAG AT GODI TÂL

Symudodd **Castell ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa** i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl yn 2014 (£1 i oedolion), a chynyddwyd sgôp y prisio yn 2015 (£2 i oedolion a £1 ar gyfer consesiynau/myfyrwyr) gyda'r nod o gynhyrchu incwm.

Canlyniad symud i ffwrdd o ddi-dâl tuag at godi tâl oedd gostyngiad mewn niferoedd ymwelwyr (o fwy na 89,000 yn 2013-14 i bron i 67,000 yn 2014-15 ac ychydig dros 53,000 yn 2015-16). Nodwyd gan yr amgueddfa fod llai o aelodau o'r gymuned leol wedi ymweld ers cyflwyno codi tâl, tra bod amser treulio ymwelwyr wedi cynyddu.

Mae codi tâl wedi cynyddu incwm gan fynediadau ac nid yw gwario eilaidd wedi cael ei effeithio, er bod gostyngiad nodedig mewn cyfraniadau yn amlwg. Mae'r amgueddfa yn teimlo fod ymwelwyr potensial a oedd yn gwybod fod yr amgueddfa yn ddi-dâl yn flaenorol yn fwy tebygol o beidio ag ymweld oherwydd y tâl.

Mae gwarsi yn cynnwys y pwysigrwydd o 'gael y neges allan' a sicrhau bod pobl leol yn deall bod tâl mynediad yn awr. Hefyd, mae'n bwysig i gadw'r un tâl am gyfnod estynedig o amser, a hyrwyddo gwerth yr amgueddfa i ymwelwyr.

Yr Effaith o Newid o Godi Tâl i Ddi-Dâl

- 3.26 Fel y nodwyd gynt, mae'r nifer o amgueddfeydd sydd wedi newid eu safle o ddi-dâl i godi tâl neu o godi tâl i ddi-dâl, yn weddol fach. Fodd bynnag, mae cyfuno'r ymatebion arolwg perthnasol â'r casgliadau mwy manwl o'r ymweliadau astudiaethau achos ar gyfer pob grŵp wedi rhoi sylfaen dda i gasglu'r canlynol.
- 3.27 Yn nhermau symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl, mae'r casgliadau isod yn dod o'r dystiolaeth DU-eang, wedi'i chynorthwyo gan ymatebion arolwg penodol gan amgueddfeydd yng Nghymru a'r astudiaethau achos o amgueddfeydd yng Nghymru.

2 YR EFFAITH O SYMUD I FFWRDD O GODI TÂL TUAG AT DDI-DÂL

- Mae'r mwyafrif llethol o amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd effaith gadarnhaol ar niferoedd cyffredinol ymwelwyr, gyda rhai yn adrodd ymwelwyr yn dyblu, yn enwedig o ran ail ymweliadau, ac ymweliadau mwy 'achlysurol', h.y. amserau treulio byrrach.
- Mae amgueddfeydd sydd wedi symud i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn cyflwyno darlun gymysg yn nhermau'r cymysgedd ac amrywiaeth ymwelwyr, heb 'unrhyw effaith' ac 'effaith gadarnhaol' yn cael eu hadrodd mewn niferoedd cyfartal. Tra bod data ar gymysgedd cymdeithasol yn gallu bod yn gyfyngedig i rai amgueddfeydd, roedd y rheiny a oedd yn adrodd effaith gadarnhaol yn enwedig yn nodi mwy o ymwelwyr lleol.
- Roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn symud o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd effaith gadarnhaol ar gyfraniadau digymell o ganlyniad. Mae i ba raddau y mae'r cynnydd hwn mewn cyfraniadau yn digolledu'r colled incwm mynediadau yn amrywio o amgueddfa i amgueddfa – mae rhai yn profi cynnydd net mewn incwm tra bod eraill yn profi colled ariannol.
- Daeth darlun gymysg i'r amlwg am yr effaith o symud o godi tâl tuag at ddi-dâl ar wario eilaidd. Mewn llawer o achosion roedd amgueddfeydd yn adlewyrchu bod ffactorau eraill yn dylanwadu ar y lefel o wario eilaidd, yn enwedig ansawdd yr adwerthu a'r cynnig arlwygo. Er mai cynnydd cyffredinol o ymwelwyr sydd yn arwain at gynnydd mewn gwerthiannau cyffredinol yw un o'r effeithiau cadarnhaol mwy cyffredin a adroddir gan amgueddfeydd di-dâl.

- Mae data cyfyngedig ar amser treulio gan y rheiny sydd wedi symud o godi tâl tuag at ddi-dâl, ond ni adroddwyd unrhyw effaith gan y mwyafrif. Roedd y rheiny a oedd yn adrodd effaith gadarnhaol fel arfer yn cysylltu hyn at ymweliadau byrrach ac amlach, yn hytrach na chynnydd yn amserau treulio pob ymweliad.
- Roedd amgueddfeydd a symudodd o godi tâl tuag at ddi-dâl yn adrodd effeithiau cadarnhaol ar berthnasau ac enw da gyda rhanddeiliaid, y gymuned leol, ffrindiau ac aelodau. Yn arbennig, roedd symud tuag at fynediad di-dâl yn helpu i ddatblygu cysylltiadau cryfach a gwell gyda'r gymuned leol – gan annog mynediad, a chynyddu proffil yr amgueddfa.

3.1 Dwy enghraifft o amgueddfeydd sydd wedi symud o godi tâl i ddi-dâl mewn blynyddoedd diweddar yw Castell Cil-y-Coed ac Amgueddfa Ceredigion, ac mae'r astudiaethau achos isod yn enghreifftio rhai o'r effeithiau hyn.

ENGHRAIFFT ASTUDIAETH ACHOS: YR EFFAITH O SYMUD I FFWRDD O GODI TÂL TUAG AT DDI-DÂL

Symudodd **Castell Cil-y-Coed** i ffwrdd o godi tâl tuag at ddi-dâl ym Mehefin 2014, gan dynnu'r rhwystr talu er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr, gan fod y mwyafrif o ymwelwyr yn ymweld â'r parc yn unig. Roedd mynediad am ddim yn un o nifer o newidiadau, a oedd hefyd yn cynnwys mynd ag arlwyo yn fewnol ac ail fodelu'r cynnig adwerthu.

Canlyniad net y newidiadau hyn i gyd oedd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr ac incwm o'r siop a'r caffï.

Teimlodd Castell Cil-y-Coed y byddai wedi gallu gwella ei gyfathrebu i staff am y rhesymau dros y newidiadau, a gall gwario eilaidd wedi bod hyd yn oed yn uwch pe bai cynllun cydgysylltiedig wedi bod yn ei le.

ENGHRAIFFT ASTUDIAETH ACHOS: YR EFFAITH O SYMUD I FFWRDD O GODI TÂL TUAG AT DDI-DÂL

Mae **Amgueddfa Ceredigion** yn cynnig mynediad di-dâl, ac wedi gwneud hyn am nifer o flynyddoedd. Ceisiwyd cyflwyno codi tâl yn flaenorol ym 1999 gyda'r cyflwyniad o dâl o £1, a chafwyd effaith sylweddol ar niferoedd ymwelwyr, a syrthiwyd o fwy na 60% (o yn agos at 40,000 at ryw 15,000), yn ogystal â chreu cyhoeddusrwydd negyddol yn y cyfryngau lleol, felly penderfynwyd dynnu'r tâl.

Nid yw codi tâl wedi cael ei geisio ers hynny, yn rannol oherwydd y profiad hwn, ond yn bennaf oherwydd y mater moesegol o amgylch codi tâl o ystyried yr agenda gwrth-dlodi yng Nghymru, a rôl yr amgueddfa mewn cynorthwyo hyn.

Mae'r amgueddfa ar fin dechrau prosiect ail-ddatblygu a byddai'n ceisio datblygu cyfleoedd cynhyrchu incwm eraill fel rhan o hyn.

Mae enghraifft ddiweddar o lwyddiant o amgylch cyfraniadau – ble'r oedd cyflwyno blwch cyfraniadau newydd (yn dilyn arfer da) yn arwain at gynnydd o 25% yn lefel y cyfraniadau a dderbyniwyd.

4. CODI TÂL AM FYNEDIADAU – DULLIAU GWEITHREDU, PRISIO AC EFFAITH

- 4.1 I'r amgueddfeydd hynny sydd yn codi tâl ar gyfer mynediad, darganfyddwyd gan yr arolwg bod amrywiaeth o strategaethau prisio yn cael eu mabwysiadu, sydd fel arfer yn adlewyrchu'r mathau cyffredin o ymwelydd, e.e. tocynnau oedolyn, plentyn, consesiwn a theulu yw'r rhai mwyaf cyffredin. O fewn y mathau hyn mae rhai amgueddfeydd yn cynnig hyblygrwydd – e.e. costau cysylltiedig ag oedran ar gyfer plant; cydnabyddiaeth o'r meintiau/mathau gwahanol o deulu a darparu tocynnau priodol.
- 4.2 Y tu hwnt i hyn, gall strategaethau prisio eraill gynnwys disgowntiau (neu fynediad di-dâl) ar gyfer: grwpiau, Ffrindiau/Aelodau, pobl anabl a gofalgwyr, neu breswylwyr lleol, yn ogystal â chymelliadau a chynigion eraill fel tocynnau blynyddol, tocynnau tymor, ail ymweliadau di-dâl, tocynnau ar y cyd, a.a.
- 4.3 Mae syniadau prisio arloesol eraill yn cynnwys disgowntiau ar gyfer prynu tocynnau arlein; disgowntiau gyda chynigion penodol/cynlluniau taleb; a chyfraddau gostyngedig ar ddyddiau penodol/amserau'r wythnos.
- 4.4 Un mater a ddaeth i'r amlwg yw cymhlethdod potensial prisio – o ystyried yr amrywiaeth o docynnau; amrywiaeth y cynigion; yn ogystal â Gift Aid a/neu opsiynau cyfrannu gwirfoddol. Mae amgueddfeydd yn nodi bod cymaint o amrywiaeth o docynnau/prisoedd yn gallu bod yn faich gweinyddol i'r amgueddfa ac yn gymhleth i'r ymwelydd potensial. Mae symudiad, e.e. o fewn rhai o'r amgueddfeydd astudiaeth achos, i symleiddio eu strwythurau prisio i'w gwneud yn haws i'w systemau, eu staff/gwirfoddolwyr, ac i ymwelwyr.
- 4.5 Yn ôl yr arolwg, mae rhyw chwarter o amgueddfeydd Cymru yn gweithredu cynllun Gift Aid ar gyfer mynediadau, gyda mwy na dwy waith cymaint yn defnyddio'r cynllun 10% ychwanegol o gymharu â'r cynllun tocyn blynyddol. O'r gweddill, dywedodd bron i draean nad ydynt yn gymwys ar gyfer Gift Aid, gyda'r 44% sydd yn weddill yn dweud nad ydynt yn gweithredu cynllun Gift Aid ar gyfer mynediadau.
- 4.6 Yn nhermau meincnodau ar gyfer prisio, a ffactorau ehangach sydd yn gallu dylanwadu ar y lefel o brisio, wrth ddadansoddi prisoedd mynediad oedolyn cyffredinol ar gyfartaledd yn erbyn ffactorau eraill, darganfyddwyd¹²:
- Y pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn oedolyn ar gyfer mynediad cyffredinol yw ychydig dros £5 gydag amrywiaeth nodedig o brisoedd yn tansellio hyn – o lai na £1 i £12. Mae hyn yn is na chanlyniad y DU-eang, a oedd yn dangos pris ar gyfartaledd o lai na £6, ac amrywiaeth ehangach o brisoedd ar y pen uwch – yn fwy na £20. Mae'n werth nodi nad oes unrhyw amgueddfeydd mawr rhanbarthol na chenedlaethol o'r fath sydd yn nodweddiadol yn codi mwy o dâl ar gyfer mynediad yng ngweddill y DU.
 - Y pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn plentyn ar gyfer mynediad cyffredinol yw ychydig dros £2.50, ac eto mae'r amrywiaeth o brisoedd sydd yn tansellio hyn yn nodedig – o ddi-dâl i £9. Mae hyn yn is na'r canlyniad DU-eang a oedd yn dangos pris ar gyfartaledd o bron i £3, ac amrywiaeth ehangach o brisoedd ar y pen uwch – hyd at £14.

¹² Mae'r canlyniadau hyn yn benodol i Gymru, er y dylid nodi bod y dadansoddiad hwn felly yn seiliedig ar ymatebion gan y 25 amgueddfa yng Nghymru a ymatebwyd i'r arolwg sydd yn codi tâl ar gyfer mynediadau cyffredinol.

- Y pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn consesiwn ar gyfer mynediad cyffredinol yw ychydig dros £4.50 gydag amrywiaeth nodedig o brisoedd o dan y pris hwn – o lai na £1 i fwy na £11. Mae hyn yn is na'r canlyniad DU-eang a oedd yn dangos pris ar gyfartaledd o ychydig dros £5, ac amrywiaeth ehangach o brisoedd ar y pen uwch – o fwy na £20.
 - Y pris presennol ar gyfartaledd ar gyfer tocyn teulu safonol ar gyfer mynediad cyffredinol yw ychydig dros £15 ac mae'r amrywiaeth o brisoedd o dan hyn o £4 i £36. Mae hyn yn is na'r canlyniad DU-eang a oedd yn dangos pris ar gyfartaledd o bron i £19, ac amrywiaeth ehangach o brisoedd ar y pen uwch – o fwy na £60.
- 4.7 Yn nhermau prisoedd ar gyfartaledd mewn perthynas â ffactorau eraill, roedd dadansoddi prisoedd oedolyn ar gyfer mynediad cyffredinol yn erbyn ffactorau eraill yn datgelu rhai patrymau¹³:
- Mae ychydig iawn o wahaniaeth rhwng prisoedd ar gyfartaledd yn ôl y fath o amgueddfa – tra bod amgueddfeydd annibynnol yn fwy tebygol o godi tâl nag amgueddfeydd awdurdod lleol, mae'r prisoedd ar gyfartaledd ar gyfer y ddwy fath sydd yn codi tâl yn debyg.
 - Po fwyaf arwyddocaol yw'r economi ymwelwyr i'r ardal leol, yr is yw'r pris ar gyfartaledd.
 - Po fwyaf pwysig yw'r amgueddfa fel atyniad yn yr adral leol, yr uwch yw'r pris y mae'n codi ar gyfartaledd.
 - Mae patrwm o brisoedd uwch ar gyfartaledd mewn perthynas i faint yr amgueddfa (yn ôl niferoedd ymwelwyr) h.y. po fwyaf yw'r amgueddfa yr uwch yw'r pris ar gyfartaledd .

Yr Effaith o Newid/Cynyddu Priso ar gyfer Mynediadau

- 4.8 Fel y nodwyd yn gynt (Adran 2), newid/cynyddu eu priso ar gyfer mynediadau oedd un o'r mathau mwyaf cyffredin o newid a wnaed gan amgueddfeydd – yng Nghymru ac ar hyd y DU – mewn blynyddoedd diweddar.
- 4.9 Yn nhermau'r effaith o gynyddu priso – naill ai drwy gynnydd pris a/neu gynnydd yn sgôp/amrywiaeth y bobl sydd yn gorfod talu – mae'r casgliadau isod yn dod o dystiolaeth DU-eang, a gynorthwyr gan ymatebion penodol gan amgueddfeydd yng Nghymru a'r astudiaethau achos o amgueddfeydd yng Nghymru.

YR EFFAITH O NEWID/CYNYDDU PRISIO AR GYFER MYNEDIADAU

- Mae amgueddfeydd sydd yn codi tâl yn barod ac wedi cynyddu sgôp neu raddfa eu priso mewn blynyddoedd diweddar yn adrodd fel arfer nad oedd y cynnydd pris yn cael effaith ar niferoedd ymwelwyr.
- Yn debyg, roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisoedd yn adrodd nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar gymysgedd ac amrywiaeth eu hymwelwyr. Nodwyd ychydig iawn o gwbl o newid yn y cymysgedd o ymwelwyr gan y mwyafrif o amgueddfeydd, gyda rhai amgueddfeydd yn cynnig gweithgareddau penodol (e.e. allgymorth), neu gymelliadau, e.e. cynigion arbennig, i leddfau unhryw effeithiau potensial.
- Roedd y mwyafrif llethol o amgueddfeydd a oedd yn cynyddu priso yn nodi bod hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar incwm mynediadau, o raddfeydd amrywiol.

¹³ Gan fod nifer weddol fach (25) o amgueddfeydd yng Nghymru a oedd yn ymateb i'r arolwg sydd yn codi tâl ar gyfer mynediadau, nid oes digon o ddata i ddadansoddi data Cymru-benodol gan yr is-gategoriâu amrywiol hyn, felly mae'r casgliadau hyn yn seiliedig ar ganlyniadau DU-eang yr ymchwil.

- Nodwyd gan bron i dri chwarter yr amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisio nad oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar gyfraniadau digymell – gan bwyntio allan fod ffactorau eraill yn fwy pwysig yn nhermau'r lefel o gyfraniadau.
- Roedd mwy na hanner yr amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisioedd yn adrodd nad oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar wario eilaidd – gyda mwy na chwarter yn adrodd effeithiau cadarnhaol, gydag effeithiau mor gadarnhaol yn cael eu cynorthwyo gan dystiolaeth arall.

- Amgueddfeydd a oedd yn cynyddu prisioedd yw'r lleiaf tebygol o adrodd bod hyn wedi effeithio ar eu henw da a pherthnasau gyda rhanddeiliaid, y gymuned leol neu ffrindiau ac aelodau. Fel arfer mae gwerthfawrogiad gan rhanddeiliaid o'r rhesymeg am gynyddu prisioedd a chryfhau safle ariannol yr amgueddfa.
- Mae llawer o amgueddfeydd yn defnyddio newid yn y cynnig i ymwelwyr, e.e. ailddatblygiad sylweddol, gwagle oriel newydd, agor arddangosfa newydd, neu newid ar raddfa llai i'r cynnig, er mwyn cynorthwyo'r cynnydd pris, gan helpu i leihau unrhyw effeithiau negyddol potensial – mae cynyddu'r pris yn syml heb unrhyw newid i'r cynnig yn fwy tebygol o arwain a effeithiau negyddol ar gyfer amgueddfa.

4.10 Mae dwy enghraifft o amgueddfeydd sydd wedi newid eu prisio mewn blynyddoedd diweddar, ac mae'r astudiaethau achos o Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod ac hefyd Gaol Rhuthun a Nant Clwyd y Dre yn enghreifftio rhai o'r effeithiau hyn.

ENGHRAIFFT ASTUDIAETH ACHOS: EFFAITH NEWID PRISIO

Roedd **Amgueddfa ac Oriol Gelf Dinbych-y-Pysgod** yn newid eu polisi ar godi tâl ar gyfer mynediad mewn blynyddoedd diweddar (mynediad di-dâl i blant, tynnu'r gyfradd gonsesiwn, a chynyddu prisioedd oedolion). Bwriad y newidiadau hyn oedd cynyddu apêl yr amgueddfa i deuluoedd a phlant, yn ogystal â gwella safle ariannol yr amgueddfa.

Ers y newidiadau, mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu ychydig, ac mae'r nifer o ymwelwyr sydd yn talu hefyd wedi cael ei chynnal. Arweiniodd y newidiadau at strategaeth brisio symlach o lawer ar gyfer yr amgueddfa, sydd wedi bod yn fanteisiol i staff/gwirfoddolwyr yr amgueddfa, ac ymwelwyr hefyd gan ei bod yn haws i'w deall a'i chyfathrebu.

Pwysleisiwyd gan Amgueddfa Dinbych-y-Pysgod pa mor bwysig yw cyfathrebu effeithiol gydag ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill wrth weithredu unrhyw newidiadau o amgylch prisio mynediad – gan gynnwys negeseuon effeithiol am safle ariannol yr amgueddfa.

ENGHRAIFFT ASTUDIAETH ACHOS: YR EFFAITH O NEWID PRISIO

Caiff **Gaol Rhuthun a Nant Clwyd Y Dre** yn Rhuthun eu gweithredu a'u rheoli gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae'r sefydliadau hyn bob amser wedi codi tâl, gyda chynnydd pris o 20% eleni yn ogystal â thocynnau arbed newydd ble mae tocyn i'r Gaol yn rhoi disgownt o 20% yn Nant Clwyd y Dre ac i'r gwrthwyneb. Nid yw'r cynnydd pris diweddar wedi cael effaith ar nifer yr ymwelwyr (sydd wedi cynyddu ychydig) na'r fath o ymwelwyr.

Yn ôl Gaol Rhuthun a Nant Clwyd Y Dre roedd cyfathrebu da, sicrhau gwerth arian da a mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau'r ymwelydd yn hanfodol i reoli unrhyw newidiadau o ran codi tâl. Enghreifftiau o hyn yw gosod arwydd y tu allan sydd yn dweud yn glir eich bod yn codi tâl, faint fydd y tâl, a pha un a oes unrhyw gonsesiynau neu docynnau ar gael, gweithio'n galed i sicrhau bod eich staff yn falch o'ch amgueddfa, ac felly yn hyrwyddwyr ac yn werthwyr da.

5. GWERSI A DDYSGWYD A MATERION I'W HYSTYRIED

- 5.1 Mae'n glir nad oes 'un faint sy'n briodol i bawb' o ran ystyriaethau o amgylch codi tâl – gyda'r astudiaethau achos a chanlyniadau'r arolwg yn darparu enghreifftiau o fathau a lefelau gwahanol o effaith o'r un strategaethau codi tâl a phrisio – yn dibynnod ar y cyd-destun e.e. yr amgylchedd ehangach y mae'r amgueddfa yn gweithredu o'i fewn; nodweddion yr amgueddfa – gan gynnwys nodau/gweledigaeth yr amgueddfa; y casgliad e.e. proffil, edmygedd ac atyniad y casgliad; proffil cwsmeriaid e.e. deall pwy yw'r ymwelwyr; cyfathrebu effeithiol yn fewnol ac allanol; a diwylliant cyfundrefnol e.e. sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn deall ac yn cefnogi'r dull weithredu o ran codi tâl ai peidio a darparu hyfforddiant lle bo angen.
- 5.2 Yr amgueddfeydd sydd wedi wynebu'r heriau mwyaf yw'r rheiny sydd wedi symud o ddi-dâl i godi tâl gyda chanfyddiadau ac agweddau ymwelwyr, yn enwedig ymwelwyr lleol, yn ffactor nodedig. Tra bod hyn yn fater DU-eang, fe'i hamlygwyd yn arbennig yng Nghymru gan nifer o ymatebwyr arolwg, astudiaethau achos ac ymgynghoreion. Y rheswm dros hyn yw natur gwasgaredig safloedd Amgueddfa Cymru ar hyd Cymru a'r dylanwad y mae yn ei chael ar ganfyddiadau, agweddau a disgwyliadau ymwelwyr potensial am amgueddfeydd yn cael mynediad di-dâl.
- 5.3 Nid yw hyn yn fater am y polisi mynediadau di-dâl i amgueddfeydd cenedlaethol, ond mae'n gysylltiedig i'r ddylanwad y mae mynediadau di-dâl i amgueddfeydd cenedlaethol yn gallu eu cael ar farn, canfyddiadau a disgwyliadau'r cyhoedd – h.y. o ran ailgryfhau neu greu syniadau gan y cyhoedd fod amgueddfeydd i gyd yn ddi-dâl, ac hefyd y dylent fod yn ddi-dâl. Mae mynd i'r afael â chanfyddiadau fel y rhain drwy gyfathrebu effeithiol yn bwysig i amgueddfeydd sydd yn codi tâl ar gyfer mynediadau.
- 5.4 Mae dogfen ganllaw ar wahân ar gyfer amgueddfeydd am osod polisi mynediadau a phrisio yn llwyddiannus wedi cael ei chynhyrchu. Y ddogfen ganllaw hon gyda'r Adroddiad Cryno i Gymru hwn (yn ogystal â'r prif adroddiad ymchwil) a fyddai'n helpu i fynd i'r afael ag Argymhelliad 8 o Adolygiad Arbenigol Darpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015, h.y. *'I adolygu'r polisi ac arfer o godi tâl ar gyfer mynediad i amgueddfeydd, a darparu canllaw'*.
- 5.5 I grynhoi, mae rhai o'r gwersi allweddol i amgueddfeydd sydd wedi dod i'r amlwg yn cynnwys:
- Y pwysigrwydd o ddeall y cynnig a'r cynulleidfaoedd o ran ystyriaethau o amgylch codi tâl ai peidio, a chost y tâl.
 - Rhaid cydnabod rôl barn a chanfyddiadau cyhoeddus – gall symud y tu hwnt i'r rhain gan ddefnyddio cyfathrebu effeithiol fod yn heriol ond mae'n holl bwysig. Gall beidio â chodi tâl fod yn ddeniadol, yn enwedig i ymwelwyr lleol, tra bod symud i ffwrdd o fod yn ddi-dâl tuag at godi tâl fod yn arbennig o heriol. Mae canfyddiadau cyhoeddus fod amgueddfeydd yn ddi-dâl yn parhau, gan gynnwys tybiaethau fod mynediad yn ddi-dâl a/neu ddisgwyliadau y dylent gael mynediad di-dâl.
 - I amgueddfeydd sydd yn codi tâl, gall amrywiaeth/hyblygrwydd y strategaeth brisio fod yn bwysig – h.y. gall ddisgowntiau ar gyfer ymwelwyr penodol, diwrnodau agored a.a helpu i leddfu unrhyw bryderon o ran hygyrchedd.
 - Nodwyd gan amgueddfeydd ei fod yn bwysig i gydbwyso'r ystyriaethau am gadw prisoedd i lawr i helpu hygyrchedd gyda pheidio â thanwerthu'r cynnig drwy greu canfyddiadau o ansawdd isel.

- Mewn perthynas â hyn, mae amgueddfeydd yn pwysleisio'r pwysigrwydd o ddarparu gwerth arian wrth gyflwyno neu newid codi tâl. Nid yw hyn yn golygu prisoedd isel, ond rhaid sicrhau bod prisio yn adlewyrchu ansawdd yr amgueddfa/cynnig a bod y neges hon, o ansawdd a gwerth yr ymweliad, yn cyrraedd ymwelwyr.
 - Tra bod mynd am brisoedd isel wrth gyflwyno codi tâl yn gallu ymddangos yn apelgar, nodwyd gan amgueddfeydd sydd yn cyflwyno tâl mynediad fod y rhwystrau a'r heriau o amgylch hyn yn dal i ddigwydd beth bynnag yw pris y tâl. Nid yw cadw'r pris yn isel yn lleihau'r her hon, a gallai achosi problemau o ran canfyddiadau bod pris isel yn golygu ansawdd isel yn ogystal â phryderon na fydd incwm o godi tâl mynediadau yn ddigonol i dalu am y gost weithredol o godi tâl a/neu yn darparu enillion digonol.
 - Gall mynediadau di-dâl gynnig cyfleoedd, ond rhaid i amgueddfeydd fod yn drefnus iawn ac yn barod i ecsbloitio cyfleoedd eraill o gynhyrchu incwm mewn ffordd gadarnhaol e.e. cyfraniadau, gwario eilaidd.
 - Cyfathrebu a chyfleu negeseuon sydd yn allweddol – gan gynnwys cyfathrebu'r angen i a'r rhesymau dros newid. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu allanol – hysbysebu costau a chynigion yn glir; cyfathrebu mewnol – cyfathrebu gyda staff am y rhesymau dros wneud newidiadau/codi tâl; a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid – yn enwedig pan fod ganddynt rôl o ran gwneud penderfyniadau/dylanwadu ar y safle codi tâl.
 - Sicrhau bod y cymariaethau perthnasol yn cael eu defnyddio wrth ystyried codi tâl/prisio – mae'n bwysig i gymharu ag atyniadau perthnasol h.y. rhai lleol yn hytrach nag atyniadau cenedlaethol, yn enwedig pan fod ymwelwyr yr amgueddfa fel arfer yn rhai lleol neu ddiwrnod.
 - Mae'n bwysig i ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff ar unrhyw newidiadau o amgylch codi tâl, ac hefyd i werthfawrogi'r gost weithredol o gyflwyno codi tâl e.e. hyfforddiant staff, offer newydd, systemau newydd.
 - Mae'n bwysig i sicrhau bod amser cyflwyno digonol er mwyn gweithredu unrhyw newidiadau.
 - Lle bo'n bosib, seilwch unrhyw benderfyniadau o amgylch newid strategaeth a/neu newid pris ar ddata/tystiolaeth dda am ymwelwyr. Mae data da ac ymchwil defnyddwyr yn bwysig iawn er mwyn hysbysu penderfyniadau am godi tâl.
 - Mae rhai amgueddfeydd yn adrodd colled o ryngweithio blaen-y-tŷ gydag ymwelwyr wrth newid i ddi-dâl – sydd yn arwain at lai o ymgysylltu a llai o ddata am ymwelwyr. Gall godi tâl olygu bod gan amgueddfeydd botensial i ddeall eu hymwelwyr yn well – trwy ragor o ymgysylltu blaen-y-tŷ, adborth ymwelwyr, a data ymwelwyr.
- 5.6 Gellid defnyddio'r gwersi hyn i helpu i amgueddfeydd greu polisiau mynediad clir, Gall y broses o greu polisiau fel hyn gynnwys rhanddeiliaid a helpu gyda'r her o gyfathrebu.



DCRResearch
Economics Creative Culture



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government